

**Uwchadran Gwasanaethau Ariannol
Uned Cyllid Gweithrediadol**

Polisi Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD)

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Amcanion Polisi	3
3. Cyllid a Monitro.....	4
4. Meini prawf a'r Broses Hawlio.....	5
5. Penderfynu a ddylid dyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn	6
6. Cyfnod y dyfarniad.....	8
7. Gordaliadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a Phenderfyniadau sy'n Cael eu Herio	8
8. Twyll	9
9. Gweld Data a Rhannu Data	9

1. Rhagymadrodd

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) yn gyfrifol am weinyddu Budd-dâl Tai a Chymorth Treth Gyngor. Swyddogaeth statudol yw hon sy'n cyfrannu at un o amcanion allweddol y Cyngor, sef adfywio cymdeithasol.

Mae Rheoliadau Cymorth Ariannol Disgresiynol 2001 (y cyfeirir atynt yn y polisi yma fel 'y Rheoliadau') yn darparu dyletswydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i weithredu'r Cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD).

2. Amcanion Polisi

Diben y polisi yw manylu sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r Cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, ac i nodi'r ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch dyfarniad o Daliad Tai yn ôl Disgresiwn. Dylid edrych ar y polisi ochr yn ochr ag Arfer Gorau'r Adran Gwaith a Phensiynau¹.

¹ <http://www.dwp.gov.uk/local-authority-staff/housing-benefit/claims-processing/operational-manuals/>

Nod ariannu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yw cefnogi dinasyddion mewn angen eithriadol. Fe geir ei ddefnyddio er mwyn darparu cymorth i hawl wyr a effeithir gan rai o'r ddiwygiadau lles allweddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gyflwynwyd drwy Deddf Diwygio Lles 2012, gan gynnwys y canlynol:

- cyflwyno 'cap ar fudd-daliadau';
- cyflwyno meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol - Cymhorthdal Ystafell Sbâr (neu enw arall yw 'treth ystafell wely');
- lleihad yn y Lwfans Tai Lleol

Nod pennaf y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yw cynnig cymorth ariannol tymor byr (ac, yn ddiweddarach, tymor hirach) i gwsmeriaid yr effeithir arnynt gan y newidiadau Budd-dâl Tai a ddisgrifir uchod, a nod y Cyngor yw:

- Sicrhau fod y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cynorthwyo'r preswylwyr hynny sy'n dangos angen ariannol eithriadol am gymorth gyda chostau tai.
- Rheoli'r Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn o fewn y gyllideb a ddyrannwyd.

Bydd y Cyngor yn ystyried gwneud dyfarniad Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i gwsmeriaid sy'n cyflawni'r meini prawf cymhwyso yn y Rheoliadau. Caiff pob achos ei drin yn llym a manwl ar ei rinweddau ei hun, caiff pob cwsmer ei drin mewn ffordd deg a chyfartal, a nodau'r Cyngor wrth weithredu'r polisi hwn fydd fel a ganlyn:

- Lliniaru tlodi
- Atal digartrefedd
- Cynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed yn y trawsnewid i fywyd fel oedolyn
- Annog hawl wyr i ennill a chadw cyflogaeth
- Cadw teuluoedd gyda'i gilydd
- Cynorthwyo'r y rhai sy'n agored i niwed yn y gymuned
- Cynorthwyo cwsmeriaid drwy argyfyngau personol a digwyddiadau anodd
- Darparu cyngor, os yw hynny'n briodol, ar atebion ynghylch sut i dalu costau tai anfforddiadwy
- Gwella gallu ariannol drwy atgyfeirio at ymgynghorydd annibynnol, er enghraifft, Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, a'r rheiny a chanddynt ddiddordeb, i godi hyd yr eithaf nifer y bobl sy'n hawlio a derbyn yr holl fudd-daliadau gwladol sydd ar gael. Fe adlewyrchir hyn yng ngwaith gweinyddu'r Cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Pan ddarperir tystiolaeth i gefnogi cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn, a bod honno'n

dangos nad yw'r cwsmer yn hawlio budd-dal gwladol arall y mae ganddo neu ganddi hawl iddo, bydd y Cyngor yn cynghori'r cwsmer i wneud hawliad amdano.

Un o fwriadau allweddol y polisi hwn yw helpu atal digartrefedd posibl mewn achos lle nad yw ceiswyr yn gallu talu'u costau tai. Mae'n hanfodol, er mwyn cyflawni hyn, fod y Gwasanaeth Budd-daliadau yn cynnal cysylltiadau gweithio agos â thîm y Cyngor sy'n delio â digartrefedd, hynny yw, Canolfan Gynghori ar faterion Tai (CGT), ac yn sefydlu rhai arferion gwaith penodol ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Darparu hyfforddiant blynyddol i staff y Ganolfan Gynghori ar faterion Tai ar y rheolau a meini prawf sylfaenol sy'n llywodraethu'r Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn
- Darparu ffurflenni hawlio, taflenni, a darnau eraill o wybodaeth sy'n hyrwyddo'r Cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, i'r Ganolfan Gynghori ar faterion Tai a'u cleientiaid
- Bydd gan staff y Ganolfan Gynghori ar faterion Tai gyfle i fanteisio ar wasanaeth dolen gyswllt benodol ar gyfer budd-daliadau tai, fydd yn medru darparu gwybodaeth a chynghor ar y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ac ar faterion cyffredinol budd-daliadau neu hawliadau
- Caiff ceisiadau am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn eu prosesu drwy'r dull carlam os daw'r ddolen gyswllt benodol ar gyfer budd-daliadau tai i wybod fod yna risg o ddigartrefedd
- Bydd un o'r aseswyr budd-daliadau tai yn edrych ar isafswm o 95% o leiaf o'r holl geisiadau am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn o fewn pum niwrnod gwaith pan ddeuant i law
- Bydd y Ganolfan Gynghori ar faterion Tai yn gallu darparu tystiolaeth o'u ffeiliau achos i gefnogi cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn; hynny yw, gwybodaeth am incwm a gwariant wythnosol y cwsmer.
- Bydd uwch aelodau o'r Tîm Budd-daliadau Tai a'r Ganolfan Gynghori ar faterion Tai yn cynnal cyfarfodydd cyswllt yn rheolaidd er mwyn trafod a datrys unrhyw faterion sy'n codi, wrth weinyddu'r Cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, a allai arwain at ddigartrefedd posibl.

Rhaid i'r dyfarniad Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn beidio â bod yn fwy na'r rhent cymwys at ddibenion Budd-dâl Tai neu Lwfans Tai Lleol.

3. Cyllid a Monitro

Bob blwyddyn, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn dyrannu i bob awdurdod lleol swm o dan gyfyngiadau ariannol, ac yn cyfyngu'r swm y caiff Cyngor ei dalu ym mhob blwyddyn ariannol i ddwywaith a hanner ei ddyraniad. Ni cheir defnyddio unrhyw ariannu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn at unrhyw bwrpas arall, a rhaid ei ddychwelyd i'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Bydd y Cyngor yn monitro'r gyllideb Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn bob mis, er mwyn sicrhau manteisio hyd yr eithaf ar y Cynllun, ac i sicrhau rheolaeth ddigonol ar unrhyw danwariannau neu orwariannau.

Er nad yw cyllid y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn wedi'i neilltuo a'i glustnodi ar gyfer effeithiau penodol diwygio lles, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyflwyno cyfundrefn monitro sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gofnodi os yw'r person sy'n hawlio wedi cael ei effeithio gan y canlynol:

- cap ar fudd-daliadau
- meini prawf maint y sector cymdeithasol
- cyfyngiadau ar y Lwfans Tai Lleol
- cyfuniad o ddiwygiadau
- dim effaith gan ddiwygio lles

Caiff yr ariannu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn wedi'i ddyrannu i gynghorau ei dalu o gyllideb o dan gyfyngiadau ariannol. Mae'n bwysig i nodi, gan hynny, fod rhaid i'r Cyngor ystyried y ffordd y caiff yr adnoddau cyfyngedig yma eu dyrannu yn deg er mwyn cynorthwyo'r rheiny yn yr angen mwyaf.

4. Meini Prawf Cymhwyster a'r Broses Hawlio

Ceir gwneud cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn yn ysgrifenedig, ar lafar neu drwy e-bost. Rhaid gwneud cais ffurfiol am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn ar ffurflen hawlio sydd wedi'i chymeradwyo a'i chyhoeddi gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Hoffech chi gael cymorth wrth lenwi'r ffurflen hawlio? Croeso i chi drefnu hyn drwy ffonio (01443) 425002 neu ebostio CwestiynauBudd-dalTai@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Bydd y Cyngor yn dyroddi ffurflen gais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn i'r ymgeisydd ei llenwi, ond, er mwyn bwrw ymlaen a'r hawliad, bydd rhaid i'r ymgeisydd anfon y ffurflen yn ôl i'r Cyngor o fewn un mis calendr o'i dyroddi.

Bydd rhaid i bob cais gael ei wneud gan yr unigolyn sy'n hawlio budd-dal, neu ei gynrychiolydd, a bydd gofyn i'r ymgeisydd fod yn derbyn Budd-dal Tai neu Costau Tai o fewn Credyd Cynhwysol.

Caiff y Cyngor ofyn am gael unrhyw dystiolaeth resymol i ategu cais, a bydd yn gweithredu mewn ffordd gyson a rhesymol wrth wneud hynny. Bydd y Cyngor yn gwneud ceisiadau o'r fath yn ysgrifenedig neu'n electronig. Dylai'r ymgeisydd, neu ei gynrychiolydd, darparu'r dystiolaeth o fewn un mis calendr.

Fe geir cymryd i ystyriaeth tystiolaeth a gwybodaeth a ddarparwyd er mwyn penderfynu'r hawliad am Fudd-dâl Tai.

Os bydd yr ymgeisydd, neu ei gynrychiolydd, yn peidio â darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen, bydd y Cyngor yn dal i ystyried y cais. Serch hynny, fe gaiff y Cyngor anwybyddu a diystyru unrhyw ddatganiad au di-sail, neu ddod i'w gasgliadau ei hun ar sail tystiolaeth arall sydd ar gael.

Fe gaiff y Cyngor, mewn unrhyw amgylchiadau, wirio a chadarnhau unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a ddarperir neu a ddarparwyd gan yr hawlydd neu'r hawlwyd, neu'u cynrychiolydd, drwy gysylltu â thrydydd partïon neu â chyrrff eraill.

I fod yn gymwys ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, bydd rhaid i'r ymgeisydd:-

Gallu dangos anawsterau ariannol neu'i fod wedi wynebu amgylchiadau personol eithriadol. Fel arfer, bydd modd dangos anawsterau ariannol drwy lenwi ffurflen incwm a gwariant yn ystod y broses hawlio (gweler isod)

Gallu dangos camau sydd wedi'u cymryd (neu sy'n cael eu cymryd) i sicrhau annibyniaeth ariannol, er enghraifft, gofyn am arweiniad gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, a gweithredu ar sail yr arweiniad hwnnw;

Gwneud cais mewn fformat cymeradwy. Yn ôl y Rheoliadau, mae angen hawlio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn os am ddyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am unrhyw dystiolaeth ychwanegol i ategu'r cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn, a bydd yn gweithredu mewn ffordd gyson a rhesymol wrth wneud hynny. Os bydd y cwsmer yn methu â darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen, neu'n peidio â gwneud hynny, bydd y Cyngor yn ystyried y cais ac yn cymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth arall sydd ar gael, gan gynnwys dogfennaeth sydd wedi ei chadw yn y ffeil achos Budd-dal Tai neu Gymorth Treth Gyngor.

Wrth benderfynu dyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, bydd y Cyngor yn ystyried gallu ariannol cyffredinol yr aelwyd a'r unigolyn mwyaf priodol i dalu unrhyw Daliad Tai yn ôl Disgresiwn ar sail amgylchiadau pob achos. Fel arfer, bydd Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cael eu talu yn unol â'r Budd-dâl Tai neu Lwfans Tai Lleol.

Mae'r Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i'w cyflwyno yn ôl disgresiwn, ond mae gan y Cyngor ddyletswydd i wneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion cydnabyddedig ynglŷn â gwneud penderfyniadau da, hynny yw, y gyfraith weinyddol ac, yn benodol, i weithredu mewn ffordd deg,

resymol a chyson. Yn ogystal â hyn, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i hyrwyddo'r cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i'w holl weithwyr sy'n cynorthwyo dinasyddion a allai fod yn methu â thalu eu costau tai, ac i hyrwyddo cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i'r cyhoedd.

5. Penderfynu a ddylid dyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

Mae'r cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn galluogi tenantiaid i wneud cais am gymorth ariannol dros dro os oes ganddynt ddiffyg yn eu Budd-dal Tai.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r fframwaith ochr yn ochr â canllawiau presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau defnyddio dull teg a chyson wrth benderfynu pwy sydd â blaenoriaeth ar gyfer dyfarniad Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

Nid nod y fframwaith yw cyfyngu ar ddisgresiwn y Cyngor wrth wneud penderfyniadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Mewn cynllun disgresiynol, bydd bob amser rai achosion ag amgylchiadau eithriadol lle bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn barnu fod cyfiawnhad ar gyfer dyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Serch hynny, y mae'r fframwaith yn darparu strwythur ar gyfer penderfynu pwy ddylai gael dyfarniad Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, a'i nod yw sicrhau cysondeb a thegwch rhesymol wrth wneud penderfyniadau.

Dyma'r ffactorau allweddol sy'n cael eu hystyried:

- Amgylchiadau'r aelwyd
- Amgylchiadau ariannol yr aelwyd;
- I ba raddau y mae aelodau'r aelwyd yn gallu, ac yn fodlon, rheoli'r sefyllfa y maent ynnddi, neu ni ellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt wneud rhagor (amodoldeb).
- Canlyniadau ariannol ehangach peidio â gwneud dyfarniad

Bydd y rhan fwyaf o'r dyfarniadau yn cael eu talu yn ddiamod, naill ai am nad yw'n debygol y bydd unrhyw newid tymor byr yn yr amgylchiadau sy'n arwain at y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, neu am fod yr aelwyd yn gwneud popeth sy'n bosibl er mwyn rheoli'r sefyllfa y maent ynnddi. Mae pob dyfarniad arall yn amodol ar beth amodoldeb o leiaf er mwyn datrys y diffyg mewn costau tai heb angen am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn.

Meini Prawf ar gyfer Gwneud Dyfarniad Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

Cyn i Gynghorau wneud dyfarniad, rhaid iddynt fod wedi'u bodloni fod hawl gan y person sy'n cyflwyno'r cais am hawlio i:-

- Budd-dâl Tai, neu
- Credyd Cynhwysol yn cynnwys elfen costau tai, a
- Bod yno atebolrwydd am rent, a
- Bod y ceisydd angen cymorth ariannol er mwyn talu costau tai

Ni cheir cynnwys rhai elfennau penodol o rent ceisydd fel costau tai ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, gan fod y Rheoliadau yn eu heithrio yn benodol. Mae'r elfennau sydd wedi'u heithrio yn cynnwys y canlynol-

- Taliadau gwasanaeth anghymwys;
- Codiadau rhent oherwydd ôl-ddyledion rhent heb eu talu;
- Rhai sancsiynau, a gostyngiadau budd-daliadau, penodol.

Credyd Cynhwysol

Yn dilyn cyflwyno Credyd Cynhwysol (CC), rhaid i gynghorau ystyried hawliadau gan gwsmeriaid nad ydynt yn derbyn Budd-dâl Tai. Os oes cwsmer yn gwneud cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn, rhaid i'r Cyngor sicrhau:-

- Fod y dyfarniad Credyd Cynhwysol yn cynnwys elfen costau tai; a
- Nad yw swm y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn sy'n cael ei ddyfarnu yn fwy na rhent cymwys wythnosol yr hawlwr.

- Fod gwerth y 'costau tai' a gynhwysir yn y dyfarniad Credyd Cynhwysol yn cael ei nodi.

Yn ychwanegol at yr uchod, ni chaiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ei dalu mewn perthynas â diffygion sy'n canlyn o'r canlynol:

- dewis yr hawlydd i fyw mewn ffordd sydd, yn amlwg, yn golygu gwario mwy na'i incwm (mae'n bosibl bydd angen ymweld â'r cartref i asesu ei ffordd o fyw);
- ad-dalu gordaliadau budd-daliadau lles ,a dirwyon.

Y broses a ddefnyddir i benderfynu bwth yw'r hawlogaeth.

Cam 1: Amgylchiadau'r Aelwyd

Mae amgylchiadau aelwydydd yn gallu amrywio rhwng pob aelwyd. Bydd pob un o'r holl amgylchiadau perthnasol yn derbyn sylw ac ystyriaeth wrth wneud penderfyniad ar Daliad Tai yn ôl Disgresiwn. Bydd y Cyngor yn rhoi sylw ac ystyriaeth i unrhyw **anawsterau y gallai aelwyd fod yn eu profi.**

Cam 2: Gallu i Reoli'r Sefyllfa

Mae'r cam yma yn cynnwys edrych ar ystyriaethau polisi cyffredinol. Bydd modd yn aml wneud y defnydd mwyaf effeithiol o gynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn fel mesur dros dro, a'r aelwyd yr un pryd yn chwilio am ateb mwy tymor hir i'r sefyllfa y maent ynddi. Rhoddir blaenoriaeth uwch, lle mae hyn bosibl, i'r rheiny sy'n bwrw ati i gymryd camau eu hunain. Enghraifft o hyn fyddai'r rheiny sydd â diffyg o ran Lwfans Tai Lleol yn chwilio am lety rhatach, neu'r rheiny sydd ag ystafelloedd sbâr yn gwneud trefniadau i symud neu i gymryd lletywr.

Mae'n bosibl, serch hynny, y gallai fod achlysuron lle mae'n bosibl efallai y bydd angen Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn am gyfnod hirach i aelwydydd na allant yn ymarferol liniaru'r sefyllfa y maent ynddi drwy gymryd camau gweithredu ei hunain. Er enghraifft, pe bai aelod o'r aelwyd yn ddifrifol anabl a ddim yn gallu gweithio, a'r aelwyd eisoes yn rheoli'i chyllideb mor effeithiol ag sy'n bosibl, byddai'r aelwyd yn cael ei thrin yn fwy ffafriol o dan y fframwaith.

Cam 3:Osgoi costau pellach (a chaledi)

Fe geid dyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn er mwyn atal caledi pellach megis dadfeddiant, a'r costau cysylltiedig i'r Cyngor yn sgil delio â digartrefedd.

Fe allai'r risg o golli tenantiaeth godi am nifer o resymau, ond ni fynegir unrhyw farn am y ffactorau sy'n arwain at y broblem. Unig ddiben y maen prawf yma yw osgoi mwy o gostau a chaledi.

Nid yw'n debygol, serch hynny, y bydd talu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn yr amgylchiadau hyn yn hyfyw am gyfnod amhenodol. Os yw aelwyd o dan fygythiad dadfeddiant, ni cheir gadael i'r sefyllfa barhau am gyfnod amhenodol. Mae angen cael hyd i ateb, boed drwy ddarparu llety arall, neu ryw gamau gweithredu gan yr aelwyd i leihau ôl-ddyledion. Cymhwysir y flaenoriaeth uchaf o dan y maen prawf yma pan fo ateb o fewn golwg.

Cam 4: Asesiad Ariannol

Cynhelir asesiad ariannol i bob cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gwneud cais. Bydd hyn yn cymharu incwm a gwariant, a rhaid nodi hyn i gyd ar y ffurflen gais Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn wrth ei llenwi. Bydd pob incwm (ac eithrio Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, a Thaliad Annibyniaeth Bersonol) yn derbyn sylw ac ystyriaeth, ynghyd ag unrhyw cynilion a chyfalaf Bydd yr holl wariant yn derbyn ystyriaeth.

Os oes oedolyn o berthynas neu ffrind yn byw gyda'r ceisydd (annibynnydd), bydd i gyfraniad gan hwnnw neu honno derbyn sylw ac ystyriaeth o ran incwm y ceisydd.

Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai cymorth fynd i'r rheiny nad oes ganddynt fodd arall i fodloni'r angen.

6. Cyfnod y dyfarniad

Bydd y Cyngor ym mhob achos yn penderfynu hyd yr amser y dyfernir Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ar ei gyfer. Fel cronfa argyfwng dymor-byr y dylid ystyried y Cynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Ni ddylid ei ystyried yn ffordd i osgoi unrhyw gyfyngiadau cyfredol, neu yn y dyfodol, a bennir yn y Cynlluniau Budd-dâl Tai.

Mae hyd y dyfarniad wedi'i gysylltu'n agos â lefel yr amodoldeb sy'n gysylltiedig. Lle nad oes amodoldeb yn gysylltiedig â dyfarniad, hynny yw, angen tymor hwy, peth dymunol fel arfer fydd gwneud dyfarniad hyd at uchafswm o 52 (neu'n fwy), gan fod y sefyllfa sy'n arwain at y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn annhebygol o newid. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd dyfarniadau byr eu parhad yn arwain at ddim mwy nag ail-ddyfarniadau diangen. Mewn achosion eraill, lle cymhwysir amodoldeb, bydd hyd nodweddiadol y dyfarniad yn amrywio fel arfer rhwng 6 a 26 o wythnosau, gan ddbynnu ar hyd yr amser y mae'i angen er mwyn llwyddo i fodloni'r amodau.

Mewn amgylchiadau mae cymorth tymor hwy sy'n dod o dan gyfarwyddyd perthnasol yr Adran Gwaith a Phensiynau yn bosibl, er enghraifft, i rieni maeth, neu aelwydydd lle gwnaed newidiadau sylweddol er mwyn diwallu anabledd aelod o'r aelwyd. Os felly, adolygir amgylchiadau'r ceisydd a'r angen parhaus cyn gwneud unrhyw ddyfarniad estynedig.

Dylai unrhyw ddyfarniad a wneir adlewyrchu amgylchiadau unigol y ceisydd, a darparu cyfle i'r cwsmer chwilio am lety arall, neu gymryd y camau priodol i ddylanwadu ar ei sefyllfa bersonol, ddomestig, neu ariannol yn y dyfodol. Os nad oes modd i'r ceisydd chwilio am lety arall, rhoir cyngor ar atebion eraill i sut i dalu'i gostau neu'i chostau tai.

Yr isafswm cyfnod lleiaf y bydd y Cyngor yn dyfarnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yw un wythnos ac, ac eithrio'r amgylchiadau hynny y cyfeirir atynt uchod, ni ddylid fel arfer gwneud dyfarniad am gyfnod hwy na 12 wythnos, ar wahan i amgylchiadau eithriadol. Gallai hyn o bosibl fod lle mae'r dyfarniad yn gysylltiedig â digwyddiad yn y dyfodol, er enghraifft, penblwydd arwyddocaol o bwys, cwblhau lleoliad gwaith gwirfoddol a all arwain o bosibl at gyflogaeth â thâl, hyfforddiant dychwelyd i'r gwaith, ayyb., ond fe benderfynir pob achos ar ei haeddiant ei hun ac fydd yr un o'r meini prawf yma ddim yn gymhwyster awtomatig.

Os bydd cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn yn llwyddiannus, bydd y cwsmer, ac unrhyw barti arall yr effeithir arno yn derbyn hysbysiad o:

- Swm y dyfarniad
- Y dull talu
- Amgylchiadau'r dyfarniad, unrhyw gamau y dylai'r cwsmer eu cymryd, ac unrhyw amodoldeb sydd ynghlwm â'r dyfarniad
- Dyddiad cychwyn a dyddiad diwedd y dyfarniad
- Eu dyletswydd i adrodd am unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eu dyfarniad

- Fod unrhyw ddyfarniad o Daliad Tai yn ôl Disgresiwn a fo wedi'i ordalu yn adenilladwy
- Y weithdrefn i'w dilyn os bydd anghydfod yn codi

Caiff unrhyw gais rhesymol am ôl-ddyddio dyfarniad o Daliad Tai yn ôl Disgresiwn ei ystyried. Chaiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mo'i ddyfarnu am unrhyw gyfnod sydd y tu allan i gyfnod cyfredol Budd-dâl Tai, Lwfans Tai Lleol, neu Fudd-dal y Dreth Gyngor.

7. Gordaliadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, a Phenderfyniadau sy'n cael eu Herio

a) Gordaliadau

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adennill unrhyw ordaliad o Daliad Tai yn ôl Disgresiwn, os cafodd y gordaliad ei wneud o ganlyniad i:

- Camliwiad, neu fethiant i ddatgelu ffaith berthnasol, sylweddol, neu faterol, yn dwyllodrus neu fel arall
- Gwall neu gamgymeriad a wnaed wrth i'r Cyngor benderfynu ynghylch eich hawliad

Rhaid peidio ag adennill Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn o unrhyw ddyfarniad cyfredol parhaus o Fudd-dâl Tai neu Lwfans Tai Lleol, oni bai fod y cwsmer yn gwneud cais am y dull adennill yma. Rhaid cyflwyno llythyr hysbysiad gordaliad, yn cynnwys y rheswm am y gordaliad, y swm a ordalwyd, y cyfnod y mae'r gordaliad yn ymwneud ag ef, a'r hawl i gael adolygiad.

b) Penderfyniadau sy'n cael eu Herio

Dyw Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ddim yn ddarostyngedig i amodau proses apelio ffurfiol yn rhinwedd y ffaith fod unrhyw benderfyniad i wneud taliadau yn ôl disgresiwn.

Lle mae cais yn cael ei wrthod, a phenderfyniad yn cael ei herio am reswm heblaw am un yn perthyn i eithriadau o Gynllun Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (o dan (5) uchod), fe gaiff ceiswyr, neu'u cynrychiolwyr, wneud cais am adolygiad.

Rhaid i bob cais am adolygiad:

- cael ei wneud gan y ceisydd neu'i gynrychiolydd/chynrychiolydd.
- pennu a nodi'r rhesymau pam y credir y dylid adolygu'r penderfyniad.
- cael ei wneud o fewn un mis calendr i'r hysbysiad o'r penderfyniad gwreiddiol.

Rhywun heblaw'r person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol ynghylch Taliad Tai yn ôl Disgresiwn fydd yn cynnal yr adolygiad.

Os bydd y cwsmer yn dal yn anfodlon ar y penderfyniad ar ôl i'r adolygiad gael ei gynnal, bydd uwch-reolwr yn ailystyried yr achos. Caiff yr holl dystiolaeth sydd ar gael ei hystyried, ac fe geir gofyn am dystiolaeth newydd. Caiff penderfyniad ei wneud o fewn deng niwrnod gwaith o'r atgyfeiriad, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedyn, a'i hysbysu i'r ceisydd mewn ysgrifen, gan nodi'r rhesymau dros eu penderfyniad.

Lle mae'r uwch-reolwr yn penderfynu peidio ag adolygu'r penderfyniad gwreiddiol, bydd y penderfyniad hwn yn derfynol ac yn rhwymol. Ni cheir ei herio ond drwy adolygiad barnwrol, neu drwy gŵyn i Ombwdsmon Llywodraeth Leol, os oes honiad o gamweinyddu. Serch hynny fydd dim hawl apelio penderfyniadau ynghylch Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, gan nad ydynt wedi'u galluogi â phŵer i ymdrin â nhw.

8. Twyll

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i mynd i'r afael â phob ffurf ar dwyll ac â chamddefnydd o arian cyllid y cyhoedd. Mae'n bosibl efallai fod pobl sy'n ceisio hawlio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn drwy dwyll drwy gamliwio eu hamgylchiadau neu drwy ddarparu datganiad anwir neu dystiolaeth anwir i ategu a chefnogi eu ceisiadau wedi cyflawni tramgwydd troseddol. Lle ceir amheuaeth ei bod yn bosibl fod twyll wedi digwydd, caiff y fater ei hymchwilio ac fe gaiff hyn arwain at gychwyn achos troseddol.

9. Gweld a Chyrchu Data a Rhannu Data

Fe gaiff y Cyngor gasglu data er mwyn ategu, cefnogi, tystiolaethu, a phenderfynu dyfarniadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Bydd y cynllun yn gweithredu er mwyn cefnogi a chynnal egwyddorion dros fynediad teg, rhesymol, chwbl gyfrinachol at weld, a rhannu data bob amser. Diben hyn yw sicrhau fod cwsmeriaid yn derbyn y budd-daliadau cywir bob amser, a bod arian cyhoeddus, a buddiant ehangach trethdalwyr y cyngor lleol yn cael eu diogelu.